**Hysbysiad Preifatrwydd Ymchwil Y Drindod Dewi Sant**

## 1. Gwybodaeth Gyffredinol

Gofynnwn i chi ddarllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn ofalus gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am bwy ydym ni, sut a pham rydym yn casglu, storio, defnyddio a rhannu data personol, eich hawliau ynghylch eich data personol ac am sut i gysylltu â ni ac awdurdodau goruchwylio os oes gennych ymholiad neu gŵyn.

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn cynnal ymchwil i'r safonau uchaf o ran uniondeb ymchwil er mwyn sicrhau ei bod yn fuddiol ac yn cyfoethogi addysg uwch. Fel y nodir yn Siarter y Brifysgol, mae ein canlyniadau ymchwil er budd y cyhoedd. Yn rhan o'n hymrwymiad i uniondeb ymchwil, rydym yn dilyn Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU) a Deddf Diogelu Data'r DU 2018 (DPA).

Mae gan ymchwil statws arbennig o dan gyfraith diogelu data'r DU. Diffinnir yr ymchwil a gyflawnir gan ein staff a'n myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig (y rhai sy'n astudio ar gyfer PhD neu Radd Meistr mewn Athroniaeth) yn un sy’n gwneud cyfraniad gwreiddiol i wybodaeth ac a gyhoeddir er mwyn rhannu'r wybodaeth honno.

Mae GDPR y DU yn rheoli'r ffordd y mae sefydliadau'n defnyddio data personol, a ddiffinnir yn y modd hwn: unrhyw wybodaeth am unigolyn sy’n ei gwneud yn bosibl adnabod y person dan sylw. Fel arfer bydd hyn yn cynnwys enw a chyfeiriad. Nid yw'n cynnwys data dienw lle mae'r wybodaeth adnabod wedi'i dileu.

O dan GDPR y DU mae "categorïau arbennig" o ddata personol mwy sensitif sy'n gofyn am lefel uwch o ddiogelwch. Mae hyn yn cynnwys: data personol sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig; barn wleidyddol; cred grefyddol neu athronyddol; aelodaeth undebau llafur; data genetig; data biometrig (lle y'u defnyddir at ddibenion adnabod); data ynghylch iechyd; bywyd rhywiol person sy’n wrthrych y data; a data sy'n ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol person.

O dan gyfraith diogelu data'r DU, mae'n rhaid bod gennym fesurau diogelu arbennig ar waith i helpu i ddiogelu eich hawliau a'ch rhyddid wrth ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol, sef:

- Polisïau a gweithdrefnau sy'n dweud wrth ein staff a'n myfyrwyr ymchwil sut i gasglu a defnyddio'ch gwybodaeth yn ddiogel.
- Hyfforddiant sy'n sicrhau bod ein staff a'n myfyrwyr ymchwil yn deall pwysigrwydd diogelu data a sut i ddiogelu eich data.
- Safonau diogelwch a mesurau technegol sy'n sicrhau bod eich gwybodaeth yn cael ei storio'n ddiogel.
- Caiff yr holl brosiectau ymchwil sy'n cynnwys data personol eu harchwilio a'u cymeradwyo gan bwyllgor moeseg ymchwil yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol.
- Mae gan gontractau gyda chwmnïau neu unigolion nad ydynt yn gysylltiedig â'r Brifysgol gymalau cyfrinachedd i nodi cyfrifoldebau pob plaid dros ddiogelu eich gwybodaeth.
- Rydym yn cynnal asesiadau effaith diogelu data ar brosiectau risg uchel i sicrhau nad effeithir ar eich preifatrwydd, eich hawliau yn unigolyn na’ch rhyddid.
- Os defnyddiwn gydweithredwyr y tu allan i'r DU, byddwn yn sicrhau bod ganddynt gyfreithiau diogelu data digonol neu fod dulliau cytundebol ar gyfer trosglwyddiadau rhyngwladol ar waith.

Yn ogystal â'r mesurau diogelu'r Brifysgol uchod, mae GDPR y DU a'r Ddeddf Diogelu Data hefyd yn gofyn i ni fodloni'r safonau canlynol pan fyddwn yn cynnal ymchwil gyda'ch gwybodaeth bersonol:

- ni fydd yr ymchwil yn achosi niwed neu ofid i rywun (e.e., niwed corfforol, colled ariannol neu boen seicolegol).
- nid yw'r ymchwil yn cael ei chynnal er mwyn gwneud neu benderfynu ar rywbeth ynghylch person unigol neu ei ofal, oni bai fod y prosesau ar gyfer ymchwil feddygol a gymeradwywyd gan bwyllgor moeseg ymchwil.
- mae gan y Rheolydd Data fesurau diogelu technegol a sefydliadol ar waith (e.e. hyfforddiant staff priodol a mesurau diogelwch).
- os yw'n prosesu categori arbennig o ddata, rhaid i hyn fod yn amodol ar brawf budd cyhoeddus pellach i sicrhau bod angen y wybodaeth arbennig o sensitif hon i gyflawni'r amcanion ymchwil.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd Y Drindod Dewi Sant yn prosesu ac yn defnyddio data categori personol ac arbennig a gesglir gennych yn rhan o brosiect ymchwil a'ch hawliau o dan reolau diogelu data.

**2. Y Rhan Gyfreithiol: Casglu a defnyddio eich data personol ar gyfer ymchwil**

Yn Brifysgol, rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol y gellir ei nodi i gynnal ymchwil yn rhan o'r gweithgareddau craidd a nodir yn ein Siarter Frenhinol. Gelwir y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu eich data personol ar gyfer ymchwil yn 'dasg er budd y cyhoedd' (Erthygl 6 o GDPR y DU).

Yn achos 'data categori arbennig', yn ogystal ag Erthygl 6, y sail gyfreithlon yw ar gyfer 'dibenion archifo, dibenion ymchwil gwyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol er budd y cyhoedd' (Erthygl 9 o'r GDPR). Pan fo angen i ni ddibynnu ar reswm cyfreithiol gwahanol, megis 'caniatâd penodol' neu 'fudd cyhoeddus a dibenion academaidd' rhestrir y rhain yn y Daflen Gwybodaeth Cyfranogwyr a ddarperir i chi.

Dim ond at ddibenion ymchwil y bydd y Brifysgol yn defnyddio'ch gwybodaeth ac ni fyddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth nac yn cysylltu â chi at unrhyw ddiben heblaw ymchwil oni bai eich bod wedi cytuno ar hyn. Os byddwch yn dewis cymryd rhan mewn prosiect ymchwil, dylech dderbyn gwybodaeth sy'n benodol i'r prosiect, ar ffurf Taflen Wybodaeth i Gyfranogwyr. Dylech hefyd gael Ffurflen Ganiatâd, ac mae'n bwysig eich bod yn darllen y wybodaeth hon yn ofalus fel eich bod yn deall sut a pham mae'r Brifysgol yn dymuno casglu a defnyddio eich data personol.

**3. Eich hawliau o dan reolau Diogelu Data wrth gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil**

Yn sefydliad sy’n derbyn arian cyhoeddus, rhaid inni sicrhau ei fod er budd y cyhoedd pan fyddwn yn defnyddio gwybodaeth bersonol adnabyddadwy gan bobl sydd wedi cytuno i gymryd rhan mewn ymchwil. Mae hyn yn golygu, pan fyddwch yn cytuno i gymryd rhan, y byddwn yn defnyddio'ch data yn y ffyrdd sydd eu hangen i fynd i'r afael â nodau'r astudiaeth ymchwil. Mae eich hawliau i gael mynediad at eich gwybodaeth, ei newid neu ei symud yn gyfyngedig, gan fod angen i ni reoli eich gwybodaeth mewn ffyrdd penodol er mwyn i'r ymchwil fod yn ddibynadwy ac yn gywir.

Os byddwch yn tynnu eich cyfranogiad o'r astudiaeth yn ôl, gallwch ofyn i ni ddileu'r data astudio a gedwir amdanoch. Byddwn yn gwneud pob ymdrech i gydymffurfio â'r cais hwn,

ond mewn rhai achosion bydd yn anymarferol, megis os yw'r data wedi eu cadw ar ffurf ddienw. Er mwyn diogelu eich hawliau, byddwn yn defnyddio cyn lleied ag y bo modd o wybodaeth y gellir nodi pobl yn bersonol drwyddi. Os ystyrir bod angen gwrthod cydymffurfio ag unrhyw un o'ch hawliau diogelu data er mwyn diogelu uniondeb a dilysrwydd yr ymchwil, cewch wybod am y penderfyniad o fewn mis ac mae gennych hefyd yr hawl i gwyno am ein penderfyniad i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**4. Prosesu eich data personol**

O ran prosesu eich data, yn y rhan fwyaf o achosion Y Drindod Dewi Sant fydd y 'Rheolydd Data'. Mae hyn yn golygu y byddwn yn gyfrifol am benderfynu sut y caiff eich gwybodaeth bersonol ei phrosesu, hynny yw: ei chasglu, ei defnyddio, ei rhannu, ei harchifo a'i dileu.

Os bydd mwy nag un sefydliad yn gweithio gyda'i gilydd ar brosiect, efallai y bydd dau neu ragor o Reolwyr Data ar gyfer prosiect penodol. Yn yr achos hwn, bydd gan y sefydliadau gytundebau ar waith sy'n amlinellu eu cyfrifoldebau ac eglurir manylion hyn ar y Daflen Gwybodaeth i Gyfranogwyr, a ddarperir i chi.

Bydd y math o wybodaeth bersonol a gesglir ac a ddefnyddir yn dibynnu ar amcanion ymchwil y prosiect penodol yr ydych yn cymryd rhan ynddo, a dylid amlinellu hyn yn glir yn y Daflen Gwybodaeth i Gyfranogwyr y dylech ei derbyn cyn cymryd rhan yn y prosiect.

Bydd y Daflen Gwybodaeth i Gyfranogwyr hefyd yn nodi a ellir defnyddio'ch data ar gyfer ymchwil yn y dyfodol, gan gynnwys gweithgareddau effaith yn dilyn adolygiad a chymeradwyaeth gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil annibynnol, yn amodol ar eich caniatâd ar ddechrau'r prosiect ymchwil hwn. Yn aml rhoddir data ymchwil ar ffurf ddienw cyn gynted ag y bo modd ar ôl casglu’r data. Fel arfer, ni fydd yn bosibl tynnu eich data yn ôl ar ôl y pwynt hwn.

**5. Rhannu eich data personol**

Mae preifatrwydd eich data personol yn eithriadol o bwysig i'r Brifysgol. Felly, rydym yn disgwyl i'n hymchwilwyr weithredu i'r safonau uchaf o ran diogelu data a chadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel. Ni fyddwn yn datgelu'r wybodaeth oni bai bod rheswm dilys at ddibenion cyflawni canlyniadau'r ymchwil.

Dylai'r Daflen Gwybodaeth i Gyfranogwyr nodi â phwy y gellir rhannu eich data personol. Gallai hyn gynnwys tîm y prosiect ymchwil a chydweithredwyr o sefydliadau allanol sydd hefyd yn gweithio ar y prosiect ymchwil.

Bydd y rhan fwyaf o wybodaeth bersonol a ddefnyddir mewn ymchwil yn cael ei chadw ar ffurf ddienw cyn ei rhannu'n ehangach neu gyhoeddi canlyniadau'r ymchwil. Os nad yw'n bosibl cadw eich gwybodaeth ar ffurf ddienw, efallai y byddwn yn gofyn am eich caniatâd i’w rhannu neu fel arall, trefnu bod eich gwybodaeth bersonol ar gael i eraill. Os felly, caiff ei nodi yn Nhaflen Gwybodaeth Cyfranogwyr sy'n benodol i'r astudiaeth.

Efallai y bydd gofyn yn ôl y gyfraith i ni rannu eich data â chyrff awdurdodedig os bydd mater yn codi sy'n creu rhwymedigaeth gyfreithiol sy’n drech neu fuddiant hanfodol.

Ar gyfer rhai prosiectau ymchwil, cedwir eich gwybodaeth sydd ar ffurf ddienw neu ffugenw ar ôl i'r prosiect ddod i ben, eu rhoi mewn storfa ddata/archif ar-lein i'w rhannu ag

ymchwilwyr eraill neu eu defnyddio mewn ymchwil yn y dyfodol. Os hoffai'r ymchwilwyr wneud hyn gyda'ch gwybodaeth, byddwch yn cael gwybod yn y Daflen Gwybodaeth i Gyfranogwyr.

## 6 Cadw eich data personol yn ddiogel

Mae'r Brifysgol yn cadw eich data personol yn ddiogel bob amser gan ddefnyddio mesurau ffisegol, technegol a gweithdrefnol. Mae diogelwch eich data yn bwysig iawn i'r Brifysgol ac felly mae gennym reolaethau cadarn ar waith i ddiogelu eich data.

Ynghyd â safonau diogelwch a mesurau technegol sy'n sicrhau bod eich gwybodaeth yn cael ei storio'n ddiogel, mae gennym hefyd bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n dweud wrth ein staff a'n myfyrwyr sut i gasglu a defnyddio eich gwybodaeth yn ddiogel a darparu hyfforddiant sy'n sicrhau bod ein staff a'n myfyrwyr yn deall pwysigrwydd diogelu data a sut i ddiogelu eich data.

Caiff yr holl brosiectau ymchwil sy'n cynnwys data personol eu harchwilio a'u cymeradwyo gan bwyllgor moeseg ymchwil. Yn ogystal, bydd y Brifysgol yn cynnal asesiadau effaith diogelu data ar brosiectau risg uchel, ac wrth weithio gyda chydweithredwyr allanol, byddwn yn rhoi contractau priodol ar waith i ddiogelu eich gwybodaeth. Os bydd y prosiect ymchwil arfaethedig yn cynnwys cydweithrediaethau y tu allan i Ewrop, byddwn yn sicrhau bod ganddynt gyfreithiau diogelu data digonol neu'n rhan o gynlluniau preifatrwydd a diogelwch megis amddiffyniad preifatrwydd yn yr Unol Daleithiau.

Pan fydd y Brifysgol yn ymgysylltu â thrydydd parti i brosesu data personol, bydd yn gwneud hynny ar sail contract ysgrifenedig sy'n cydymffurfio â gofyniad diogelwch GDPR a Deddf Diogelu Data 2018.

Mae'r Brifysgol yn cymryd camau i alluogi adfer a chael gafael ar ddata mewn modd amserol os bydd digwyddiad corfforol neu dechnegol.

Mae'r Brifysgol hefyd yn sicrhau bod gennym brosesau priodol ar waith i brofi effeithiolrwydd ein mesurau diogelwch.

Rydym hefyd weithiau'n defnyddio cynhyrchion neu wasanaethau a ddarperir gan drydydd partïon i gynnal gweithgareddau ymchwil neu rannu data ymchwil, megis cynhyrchion cydweithredu Microsoft e.e. Teams, neu offer cyfathrebu ar-lein eraill e.e. Zoom. Gelwir y trydydd partïon hyn yn broseswyr data a phan fyddwn yn eu defnyddio mae gennym gytundebau ar waith i sicrhau bod eich gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel. Nid yw hyn bob amser yn golygu eu bod yn cael gafael ar eich gwybodaeth ond os byddant yn gwneud hyn, caiff ei amlinellu yn y Daflen Gwybodaeth i Gyfranogwyr. Yn Rheolydd Data, byddwn bob amser yn arfer diwydrwydd dyledus ynghylch defnyddio trydydd partïon er mwyn cadw eich gwybodaeth yn ddiogel gydol yr ymchwil.

## 7. Cadw eich data personol

Mae GDPR a Deddf Diogelu Data 2018 yn gofyn na ddylid cadw data personol yn hwy na'r hyn sy'n angenrheidiol at y dibenion y caiff y data personol eu prosesu ar eu cyfer (ac eithrio mewn rhai achosion penodol a chyfyngedig).

Mae'r Brifysgol yn disgwyl na fydd ei hymchwilwyr yn cadw eich gwybodaeth bersonol am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol at ddibenion yr ymchwil ac y bydd data ar ffurf ddienw neu ffugenw, drwy ddileu gwybodaeth adnabod a rhoi dynod neu god artiffisial yn ei lle, pan fo'n bosibl. Mae'r amser y byddwn yn storio eich data yn dibynnu ar nifer o ffactorau, megis gofynion y cyllidwr ymchwil neu natur yr ymchwil. Fel arfer, cewch wybodaeth am ba hyd y cedwir eich gwybodaeth bersonol ar y Daflen Gwybodaeth i Gyfranogwyr uchod.

**8. Hawliau gwrthrych data**

Yn ôl y gyfraith, mae gennych hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch. Mae'r rhain yn cynnwys yr hawl i wneud y canlynol:

- Gweld y wybodaeth/derbyn copi o'r wybodaeth;
- Cywiro unrhyw wybodaeth anghywir;
- Dileu unrhyw wybodaeth;
- Cyfyngu neu godi pryderon ynghylch prosesu'r wybodaeth;
- Symud eich gwybodaeth ("cludadwy").
- Gofyn am ymyrraeth ddynol pan wneir penderfyniadau neu broffiliau awtomatig. Byddwch yn cael gwybod os yw'r naill neu'r llall o'r uchod yn berthnasol i'ch gwybodaeth bersonol.

Mae'r hawliau hyn yn berthnasol i'ch gwybodaeth cyn ei rhoi ar ffurf ddienw yn unig, oherwydd unwaith y bydd hyn yn digwydd ni allwn adnabod eich gwybodaeth benodol mwyach. Weithiau efallai y bydd eich hawliau yn gyfyngedig pe bai'n atal neu'n gohirio'r ymchwil. Yn yr achos hwn, byddwch yn cael gwybod gan y tîm ymchwil ond mae gennych hawliau o hyd i gwyno wrth ein Swyddog Diogelu Data ac os ydych yn dal i fod yn anfodlon bydd gennych yr hawl i gwyno am hyn wrth y Comisiynydd Gwybodaeth.

Os ydych am adolygu, dilysu, cywiro neu ofyn am ddileu eich gwybodaeth bersonol, gwrthwynebu prosesu eich data personol, neu ofyn i ni drosglwyddo copi o'ch gwybodaeth bersonol i barti arall, cysylltwch â:

Mr Paul Osborne
Y Swyddog Diogelu Data
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Campws Busnes Abertawe
Y Stryd Fawr, Abertawe
SA1 1NE
foi@pcydds.ac.uk

**Nid oes angen ffi fel arfer**

Ni fydd rhaid i chi dalu ffi i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol (nac i arfer unrhyw un o'r hawliau eraill). Fodd bynnag, efallai y byddwn yn codi ffi resymol os yw'ch cais am fynediad yn amlwg ddi-sail neu'n ormodol. Fel arall, efallai y byddwn yn gwrthod cydymffurfio â'r cais dan amgylchiadau o'r fath.

**Yr hyn y gall fod ei angen arnom gennych chi**

Efallai y bydd angen i ni ofyn am wybodaeth benodol gennych i'n helpu i gadarnhau pwy ydych chi a sicrhau eich hawl i gael mynediad at y wybodaeth (neu i arfer unrhyw un o'ch hawliau eraill). Mae hwn yn fesur diogelwch priodol arall i sicrhau nad yw gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu i unrhyw berson nad oes ganddo hawl i'w derbyn.

**9. Â phwy i gysylltu a chwynion**

Gobeithiwn y gall ein Swyddog Diogelu Data ddatrys unrhyw ymholiad, pryder neu gŵyn sydd gennych am ein defnydd o'ch data personol ar y manylion cyswllt isod:

Gellir cysylltu â Mr Paul Osborne drwy'r e-bost yn foi@pcydds.ac.uk <mailto:foi@uwtsd.ac.uk>

Neu ysgrifennwch at:

Mr Paul Osborne
Y Swyddog Diogelu Data
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Campws Busnes Abertawe
Y Stryd Fawr, Abertawe
SA1 1NE

Mae GDPR a Deddf Diogelu Data 2018 hefyd yn rhoi'r hawl i chi gyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth y gellir cysylltu ag ef yn: <https://ico.org.uk/concerns/> neu dros y ffôn: [0303 123 1113].

**10. Diweddariadau i'r polisi preifatrwydd hwn**

Rydym yn adolygu'r ffyrdd rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth yn rheolaidd. Wrth wneud hynny, efallai y byddwn yn newid y math o wybodaeth a gasglwn, sut rydym yn ei storio, â phwy yr ydym yn ei rhannu a sut rydym yn gweithredu arni. O ganlyniad, bydd angen i ni newid y polisi preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd i'w gadw'n gywir ac yn gyfoes. Byddwn yn adolygu'r polisi hwn yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn gywir ac yn cael ei ddiweddaru. Diweddarwyd y polisi hwn ddiwethaf ar 5 Mawrth 2022